

Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd - Dydd Llyn

19 Hydref 2.30-4pm. Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Cadeirydd Y Cynghorydd
Huw Thomas
(Cadeirydd y Cyng. HT).
Y Cynghorydd Peter
Bradbury (Y Cyng. PB)
Ruth Cayford (RC)
Antwn Owen Hicks (AOH)
Heather Brown (HB)
Sarah Hemsley-Cole
(SHC)
Gavin Allen (GA)

Guto Brychan (GB)
Bethan Elfyn (BE)
Lucy Squire (LS)
Helia Phonix (HP)
Michael Garvey (MG)
Liz Hunt (LH)
Phil Sheeran (PS)
Tumi Williams (TW)
Ruth Ballantyne (RB)
Hannah Williams (HW)
Joe Jones (JJ)

Nick Saunders (NS)
Daniel Minty (DM)
Adrian Field (AF)
Jon Day (JD).

Ymddiheuriadau:

Gerwyn Evans
Andy Warnock

| | |
|---|--|
| 1. Cofnodion - Materion yn Codi | |
| <ul style="list-style-type: none"> (Cadeirydd) Diolch i'r Cyng Peter Bradbury am gamu i'r adwy fel Cadeirydd yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd. | |
| 2. Diweddariad Dinas - Heriau Covid-19 | |
| <ul style="list-style-type: none"> (Cadeirydd Cyng HT) Cafodd cyfyngiadau 'Cyfnod Atal' newydd eu cyhoeddi a chafod pecynnau cymorth newydd eu rhoi ar waith fel ymateb. Mae achosion Covid-19 positif yn cynyddu. Mae'n glir bod cyfeiriad ar gyfer y cyfyngiadau. (SC) Mae angen cydnabod yr angen am gymorth cydradd ar draws sectorau. (GB) angen map ffordd i gynllunio'r broses o ddychwelyd ac adfer y sector cerddoriaeth fyw. Ar hyn o bryd mae Cymru'n colli digwyddiadau yn 2021 o ganlyniad i ddiffyg cynllun clir. Mae materion fel cyrffyw 10pm hefyd yn cael effaith o ran dichonoldeb. | <p>Camau Gweithredu:</p> <p>Siarad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, er mwyn pwysleisio angen y sector cerddoriaeth am fap ffordd er mwyn adfer y sector cerddoriaeth.</p> |
| 3. Heriau'r Sector | |
| <ul style="list-style-type: none"> (SC) Rwyf bellach yn mynychu cyfarfodydd tasglu celfyddydau Cymru gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r sector, rydym wedi rhoi'r digwyddiadau prawf yn ôl ar yr agenda (PS) Rwyf newydd siarad â Rob Holt ac mae'n gadarnhaol am wthio'r digwyddiadau prawf hynny ymlaen. (PF) Y map ffordd i gefnogi adferiad yw'r prif fater a godir | <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y Cadeirydd yn trafod materion gyda'r Gweinidogion Bydd y swyddogion yn egluro canllawiau ymarferion |

| | |
|--|--|
| <p>yn y grŵp rhanddeiliaid cerddoriaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • (LH) Hoffwn wybod beth yw'r rheolau ar gyfer ffrydio cerddoriaeth fyw yn fyw o leoliad caeedig, gydag ymbellhau cymdeithasol yn ystod y cyfnod cloi hwn. • (RB) Mae gan Undeb y Cerddorion bryder am wasanaethau cerddoriaeth a'r sefyllfa ar gyfer athrawon Cerddoriaeth. • (AOH) Pwy sy'n gwneud y penderfyniad y caiff y gerddorfa ymarfer yn Neuadd Hodinott ac nid yn Neuadd Dewi Sant? | |
| <p>4. Diweddariad Cynllunio</p> | |
| <ul style="list-style-type: none"> • (JD) Rydym yn ymwybodol y bu ychydig o faterion cynllunio a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar y byddech chi'n disgwyl i Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd gyflwyno ymateb iddynt. • Rydym yn argymhell y gallai Jon Fox gyda'i arbenigedd ar ddeddfwriaeth gynllunio ddod ag unrhyw ymateb ar ran Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ynghyd. • Mae problem ar unwaith ynghylch lleoliad y Flute and Tankard. • (JF) Un o'r rhesymau dros sefydlu Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yw oherwydd gwahanol broblemau gyda datblygwyr a materion Cynllunio yn y ddinas, o ran y bygythiad i leoliadau cerddoriaeth. • Yn yr achos hwn mae cais am newid defnydd o swyddfeydd i breswyl uwchben Poundland ar Heol-y-Frenhines. Rydym yn cynnig y byddai'n ychwanegu mwy o gryfder os gallwn ddatblygu proses i roi sylwadau ar y mathau hyn o faterion. • (Cadeirydd - Cyng HT) Byddwn yn cytuno ei fod yn bwysig yn y dyfodol i ystyried beth fyddai'r effaith ar Sector Cerddoriaeth Caerdydd • (JF) Er mwyn cael cadarnhad, a yw pawb yn y cyfarfod hwn heddiw yn hapus i mi fwrw ymlaen â chyflwyno sylwadau Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i gais cynllunio y Flute and Tankard er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon? <p>Mae Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn cytuno</p> | <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Jon Fox yn cyflwyno sylwadau i Gais Cynllunio byw ar y Flute and Tankard ar ran Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd. • Bydd Jon Fox yn cynghori Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn rheolaidd ac yn cyflwyno unrhyw sylwadau a/neu wrthwynebiadau dilynol i unrhyw geisiadau Cynlluniau a fydd o bosibl yn effeithio ar y sector cerddoriaeth yng Nghaerdydd. • Cynghori adran Gynllunio Cyngor Caerdydd i ymgynghori â Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ar unrhyw gais a fydd o bosibl yn effeithio ar sector cerddoriaeth y ddinas • Dylai Bwrdd |

| | |
|---|--|
| | <p>Cerddoriaeth Caerdydd gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar ddogfen cynllunio gofodol 'Dyfodol Cymru' Llywodraeth Cymru</p> |
| <p>5. Y Diweddaraf gan Lywodraeth Cymru</p> | |
| <ul style="list-style-type: none"> • (PF) Rydym yn gweithio ar geisiadau'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. Disgwylir y caiff pob cais o dan £150 mil ei asesu erbyn diwedd mis Tachwedd. Caiff y ceisiadau mwy hefyd eu hasesu ym mis Tachwedd. • Mae CCC wedi gwneud eu holl benderfyniadau a byddant yn hysbysu'r ymgeiswyr yr wythnos hon. Bu Awdurdodau Lleol yn prosesu ceisiadau ac yn gwneud taliadau ar gyfer y Gronfa Llawrydd. • Rydym yn cydnabod, oherwydd y galw a dyraniadau, caeodd y cynllun hwn yn gyflym iawn mewn llawer o awdurdodau. Gwnaethom ddyblu'r dyraniad ar gyfer rhanbarth Caerdydd ac ar hyn o bryd rydym yn chwilio am fwy o adnoddau. • Ein hamcan yn yr hirdymor yw bod â chynllun Gweithredu Cerddoriaeth yng Nghymru, i gefnogi'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol. • (Cadeirydd Cyng HT) Mae dyraniadau'r Gronfa Llawrydd i Gaerdydd yn dod i ben ar ôl 20 munud yn unig y bore yma. Ysgrifennais at y Gweinidog yr wythnos diwethaf i ofyn am newid y ffordd y gallai arian gael ei ddyrannu'n decach yng Nghymru. • (MG) Rwy'n cytuno â phopeth a ddywedwyd, ac rwy'n credu bod y diffyg gwybodaeth am Weithwyr Llawrydd ledled Cymru a'r ffaith bod ychydig iawn o ddata amdanynt yn golygu na ellid gwneud unrhyw un o'r penderfyniadau strategol teg hynny. | <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Cadeirydd yn siarad â Minters am y dyraniad arian annigonol i Weithwyr Llawrydd Creadigol yng Nghymru • Bydd Peter Francombe yn rhoi adborth ar bryderon i Gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a grŵp Adfer Cerddoriaeth Cymru. |
| <p>6. Diweddariad ar CCC</p> | |
| <ul style="list-style-type: none"> • (AOH) Rydym wedi bod trwy ein proses Cronfa Adferiad Ddiwylliannol. Roedd rhaid i bob cais a oedd dros £50 mil fynd at gyfarfod Cyngor Llawn CCC ddydd Gwener. Cawsom 222 o geisiadau gan sefydliadau ledled Cymru a dyfarnom 209 ohonynt. Mae hynny'n cynnwys rhywfaint o geisiadau Cyfalaf. Felly cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd yw tua £20 miliwn ar draws y sector cyfan. Roedd tua 40 o'r grantiau hynny'n sefydliadau yng Nghaerdydd neu'n gweithio yng Nghaerdydd. | |

| | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Bydd datganiad i'r wasg a fydd yn mynd allan ddydd Mercher. Mae'r cynllun Cysylltu a Ffynnu yn fyw ar hyn o bryd i bobl ei ystyried a gwneud cais. Mae'n gynllun trawsffurfiau celf | |
| <p>7. Gwaith yr Is-grŵp</p> | |
| <ul style="list-style-type: none"> • (RC) Gwnaethom ddechreuad da ar waith yr is-grŵp a chafodd Michael Garvey, Gavin Allen a finnau sgwrs dda gyda Spike Griffiths o'r prosiect Forte. Felly mae angen i ni gymryd sylw o'r sgwrsiau hynny. • (BE) Mae Joff o Ministry of Life yn sefydlu Cynhadledd Cerddoriaeth Caerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ei chefnogi ac felly hefyd Horizons. Byddwn yn trefnu rhywfaint o glinigau cerddoriaeth ar-lein i bobl ifanc sy'n creu cerddoriaeth yng Nghaerdydd. • (LS) Pan roeddem yn edrych ar ddatblygiad artistiaid a'r angen am fwy o ddata. • Byddwn yn awgrymu ein bod yn gweithio gyda'r Athro Paul Carr a myfyriwr doethuriaeth Luke Thomas sy'n gweithio gyda llawer o'r sefydliadau rydym yn gyfarwydd â nhw fel y prosiect Forte. Maent yn gweithio ar gorff helaeth o waith sydd i gael ei gwblhau yn yr ychydig fisoedd nesaf a hoffent gyflwyno hynny i Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd neu i'r is-bwyllgor Addysg. Y canlyniad yw nodi rhai argymhellion y gallai'r sector eu datblygu. | |
| <p>8. Unrhyw fater arall</p> | |
| <ul style="list-style-type: none"> • (SC) Diolch am y llythyr gan Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i gefnogi'r ymgyrch We Make Events a gynhaliwyd gennym ar 30 Medi. Mae gennym ddiwrnod ymgyrchu arall ar 30 Hydref. Rydym yn edrych ar syniad am brotestio creadigol gydag ymgysylltu torfol tuag ar ddiwedd mis Tachwedd, fel y gall y sector ddod at ei gilydd, mewn ffyrdd cyfrifol gydag ymbellhau cymdeithasol. | |